

ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2013/14

Cynghorydd: Elin Walker Jones

Grŵp: Plaid Cymru

Ward: Bangor - Glyder

Bwriad yr adroddiad blynyddol:

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

Rôl a chyfrifoldebau:

Pencampwr Awtistiaeth Cyngor Gwynedd
Aelod etholedig ward Glyder, Bangor

Gweithgareddau etholaethol:

Materion lleol: traffig, cyflwr y lonydd a'r troedffyrdd, sbwriel, baw ci, gweithio efo'r ysgolion, torri gwrych, torri coed, problemau efo blychau ffôn, bwrdd dŵr, gwaith ar y ffordd, mannau cysgodi bws, llifogydd, llwybr cyhoeddus, goleuadau stryd, diogelwch plant, budd daliadau, lleoliadau addysgol, hawliau pobl anabl i gael mynediad teg i'r Stryd Fawr (e.e. cefnogi GUBOA), materion cynllunio, cefnogi Tyfu yn ei hymdrech i sicrhau rhandiroedd i bobl Bangor, gweithio efo Clwb Pel droed Penrhos a RDA i sicrhau les ar dir hen ysgol Coed Menai, ayb

Mentrau a gweithgareddau eraill:

Sefydlu Menter Iaith Bangor; CPERA (Cymdeithas Pobl Eithinog Residents' Association); cydweithio efo Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru; Grŵp Awtistiaeth ac Asperger Gwynedd a Môn, gan gynnwys y grŵp Oedolion, grŵp cefnogi rhieni a'r clwb ieuentid; byrddau Llywodraethwyr Ysgol y Garnedd ac Ysgol Tryfan; cyfarfodydd efo amrywiaeth helaeth o randdeiliaid: etholwyr, swyddogion, cydwleidyddion ar sawl haen cynrychiolaeth.

Trefnu Bws Cerdded yn ystod Wythnos Cerdded i'r Ysgol; trefnu/cymryd rhan mewn amryw sgwadiu sbwriel efo preswylwyr/disgyblion ysgol.

Gwirfoddoli i helpu efo Carnifal Bangor, cynrychioli'r Fenter Iaith yng nghyfarfodydd Grŵp Digwyddiadau Bangor ac yn achlysurol efo GCPB (TPOBCG), cefnogi Bugeiliaid y Stryd; Gwynjim,

Cefnogi digwyddiadau codi arian lleol ee ffeiriau ysgol ac ysgol Feithrin, cymdeithasau rhieni ac athrawon, boreau coffi, Cerddwn Ymlaen, ayb

Cymryd rhan mewn gweithdy traffig, cydweithio efo eraill i drïo sefydlu ParkRun ym Mangor.

Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:

PWYLLGOR	PRESENNOL
Y Cyngor	3
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	4
Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol	1
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	4
Fforwm Ardal Ogwen	1

Canran Presenoldeb: 72%

Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:

Panel Rhiant Corfforaethol (cynrychiolydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau)

Panel Iechyd a Diogelwch

Gweithgor Ansawdd Addysg Gymraeg;

Gweithgor Gofal Iechyd;

Gweithgor Mwy Na Geiriau;

Bwrdd Prosiect Ysgol Arbennig Meirion Dwyfor;

Grwp Rhanddeiliaid Awtistiaeth Gwynedd a Mon;

Seminar ar Sefyllfa Ariannol y Cyngor

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:

Ysgol Tryfan (Llywodraethwr Ysgol)
Ysgol y Garnedd (Llywodraethwr Ysgol)

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:

Seremoni wobrwyo Grassroots Diplomats, Llundain, mis Mai 2014. (Categori Social Drivers.) Enillydd y categori oedd y Farwnes Lawrence, sef mam y diweddar Stephen Lawrence.

Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:

Corfforaethol

Panel Gosod Tai a Chyfrifoldebau Statudol

Panel Rhiant Corfforaethol

Ychwanegol

Cyfanswm nifer o oriau: 5.5

